# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Mawrth 2025

Amser: 09.01 - 10.06

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Busnes yr Wythnos Hon**

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

**Dydd Mercher**

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- <u>Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)</u>

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 25 Mawrth 2025**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Cynhwysiant Digidol (45 munud) – *wedi'i aildrefnu o 1 Ebrill*
- Dadl: Teithio gan Ddysgwyr (60 munud) – *aildrefnwyd*

**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2025**

- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Diweddariad ar gynhwysiant digidol – cam nesaf (45 munud)~~ – *aildrefnwyd i 25 Mawrth*
- Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025 (~~15~~ 5 munud)
- Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilot) (Cymru) 2025 (15 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad) (15 munud)~~ *gohiriwyd*

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes at fater amserlennu trafodion Cyfnod 3 yn dilyn toriad y Pasg. Cadarnhaodd y Trefnydd ei bod bellach yn fwriad gan y Llywodraeth i drefnu trafodion Cyfnod 3 ar Fil y Gymraeg ac Addysg ddydd Mawrth 6 Mai a Chyfnod 3 y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) ddydd Mawrth 13 Mai.

Gofynnodd Heledd Fychan a fydd datganiad llafar yn cael ei gyflwyno i nodi deng mlynedd ers Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y mater.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd i drefnu'r eitemau a ganlyn ar Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 30 Ebrill 2025 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

### 3.4 Cynigion Deddfwriaethol yr Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a chytunodd i amserlennu'r cynigion a ganlyn:

**26 Mawrth – Mick Antoniw**

**NNDM8799**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar fynd i'r afael â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) cryfhau a diwygio'r gyfraith ar dipio anghyfreithlon yng Nghymru mewn perthynas â'r canlynol:

i) cosbau ariannol ac anariannol (megis atafaelu trwydded yrru neu gerbyd);

ii) y cap ar hysbysiadau cosb benodedig;

iii) gweithgarwch gorfodi; a

iv) safoni methodolegau cofnodi ac adrodd data awdurdodau lleol.

b) cryfhau a diwygio'r gyfraith ar daflu sbwriel yng Nghymru mewn perthynas â'r canlynol:

i) nodi taflu sbwriel fel ymddygiad gwrthgymdeithasol;

ii) cosbau ariannol ac anariannol (megis darparu 'cyrsiau ymwybyddiaeth sbwriel' i droseddwyr); a

iii) cyfrifoldebau lleihau sbwriel manwerthwyr a chyflenwyr eraill.

c) cyflwyno prosesau sy'n ei gwneud yn haws i aelwydydd gael gwared ar wastraff.

**30 Ebrill – Mabon ap Gwynfor**

**NNDM8806**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i ymgorffori yng nghyfraith Cymru lefelau staffio diogel gofynnol ar gyfer deintyddion a gomisiynir gan y GIG.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) sefydlu llinell sylfaen genedlaethol ofynnol ar gyfer staff deintyddiaeth ledled Cymru, yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth o ran iechyd y geg;

b) cyflwyno dyletswydd ar ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol yng Nghymru i gyfrifo a chymryd pob cam rhesymol i gynnal lefelau staffio deintyddiaeth a hysbysu cleifion o'r lefel;

c) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i wireddu'n raddol hawl holl ddinasyddion Cymru i gael mynediad at wasanaethau deintyddiaeth a gomisiynir gan y GIG;

d) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu cynllun gweithlu i gefnogi a chynnal proffesiwn deintyddiaeth y GIG yng Nghymru; ac

e) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol ar y cynllun hwnnw, yn ogystal â datganiadau cysylltiedig yn y Senedd.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cydgrynhoi cyfraith gynllunio

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a gofynnodd i swyddogion ddarparu cyngor pellach ar y goblygiadau tebygol ar gyfer yr amser sydd ar gael i graffu ar Filiau cydgrynhoi ar gyfraith gynllunio sy'n deillio o fwriad presennol y Llywodraeth i gyflwyno'r Biliau'n ffurfiol yn dilyn toriad yr haf 2025.

### 4.2 Gohebiaeth ynghylch y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyrau.

### 4.3 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i:

- gyfeirio’r Memorandwm ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 9 Mai 2025 i gyflwyno adroddiad;
- cyfeirio’r Memorandwm Atodol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, ac ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar yr holl Femoranda ar y Bil hwn i 2 Mai 2025.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Gohebiaeth gan Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch Rheol Sefydlog Dros Dro 35

Trafododd y Pwyllgor Busnes ohebiaeth bellach gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch newidiadau posibl i’r Rheolau Sefydlog yn gysylltiedig â’r Pwyllgor hwnnw, ynghylch llwon a chadarnhad.

Nododd Paul Davies a Heledd Fychan eu cefnogaeth i gynnig gwelliant i'r Rheolau Sefydlog i ddarparu pŵer yn ôl disgresiwn i Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ofyn i dystion gymryd llw neu gadarnhad cyn darparu tystiolaeth lafar. Mynegodd y Trefnydd bryder am oblygiadau posibl pŵer o'r fath i dystion a gwaith y Pwyllgor, a dywedodd nad oedd yn cefnogi newid o'r fath i'r Rheolau Sefydlog yn cael ei gynnig gan y Pwyllgor Busnes.

Felly, nid oedd mwyafrif y Pwyllgor Busnes yn cefnogi datblygu cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n gysylltiedig â Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru er mwyn darparu pŵer yn ôl disgresiwn sy'n ei alluogi i’w gwneud yn ofynnol i dystion gymryd llw neu gadarnhad.

## 6 Ymweliad â Siambr Hywel

Cynhaliodd y Pwyllgor Busnes ymweliad â Siambr Hywel i drafod trefniadau ymarferol i'w defnyddio fel siambr dros dro tra bydd gwaith yn cael ei wneud i ehangu Siambr y Senedd cyn etholiad y Senedd yn 2026.